# NEWYDDION Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) HYDREF 2017

## Neges gan y Prif Weithredwr

Mae’n bleser mawr gennyf weld ein gwasanaeth R1 newydd yn awr ar waith yn fyw, rydym yn prosesu gwiriadau sylfaenol gan Sefydliadau Cyfrifol, ac yn derbyn atgyfeiriadau gwahardd ar-lein.

Erbyn diwedd eleni dylai pob un o’n Sefydliadau Cyfrifol fod wedi ymuno â ni, gan roi’r gallu i ni brosesu gwiriadau datgelu sylfaenol ar gyfer Lloegr a Chymru.  Erbyn hynny byddwn hefyd wedi lansio’r gwasanaeth gwirio sylfaenol i ymgeiswyr unigol yn ogystal.

Hoffwn annog pob Sefydliad Cyfrifol i gadarnhau eu dyddiad profi a chychwyn o ran cyflwyno gwiriadau sylfaenol os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny.

Rydym wedi ein staffio ac yn barod i brosesu’r gwiriadau hyn.  Nid oes angen unrhyw ymyrraeth ddynol i gwblhau tua 50% o wiriadau sylfaenol ac rydym yn rhyddhau canlyniadau o fewn 2 funud sydd, gobeithio y cytunwch, yn wasanaeth ardderchog.

Mae gweithredu’r gwasanaeth R1 yn dod â buddiannau sylweddol i’r ffordd y mae’r GDG yn gweithio.  Mae’n gwella ein gwasanaethau a’n galluoedd digidol sy’n gefn i’r gwaith pwysig a wnawn, bawb ohonom, ym maes diogelu.

Mae fy ffocws yn awr ar y cam nesaf, sef cyflenwi’r gwasanaeth ar gyfer gwiriadau datgelu safonol a manylach, a byddaf yn eich diweddaru ar hyn wrth i’r cynlluniau fynd yn eu blaenau.

Hefyd yn y rhifyn yma y mae newyddion am y canlyniadau a ddaw o’n trydydd arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid.  Diolch eto am eich adborth.

## ‘Release 1’ (R1)

## System TG newydd yn mynd yn fyw

Ynghynt y mis yma, fe wnaethom wasgu’r botwm i beri i R1, ein system TG newydd, y bu disgwyl mawr amdani, fynd yn fyw. Mae’r system yn cael ei rhoi ar waith mewn camau: mae gwahardd yn awr yn fyw ac rydym wedi dechrau prosesu gwiriadau sylfaenol ar gyfer Lloegr a Chymru.  Bydd R1 yn rhoi i’n cwsmeriaid fynediad at wasanaethau’r GDG ar-lein, a thrwy ddod â’n llwyfannau datgelu a gwahardd at ei gilydd, yn ein galluogi i fod yn fwy effeithiol yn ein gwaith diogelu.

## Gwahardd

Mae'r newidiadau o ran gwahardd hefyd yn rhai sylweddol, gan ein bod yn symud o system a fu, gan mwyaf, yn un bapur, i un ar-lein. Hyd yma, mae unrhyw un sy'n gwneud atgyfeiriad gwahardd wedi gorfod gwneud hynny ar bapur. Yn awr gallant gyflwyno atgyfeiriad ar-lein drwy gofrestru i sefydlu cyfrif gyda'r GDG. Yn yr un modd, gall sefydliadau eraill yr ydym yn rhannu gwybodaeth â hwy sefydlu cyfrifon ar-lein gyda ni.

Gall unigolion sydd wedi'u hatgyfeirio hefyd gofrestru cyfrifon gyda'r GDG fel y gall pob cyfathrebiad rhyngom ddigwydd drwy gyfrifon ar-lein diogel. Dywedodd Cyfarwyddwr Gweithredu'r GDG (Gwahardd), Jenny Mooney, 'Dyma gam gwirioneddol gadarnhaol i'r GDG wrth i ni groesawu'r oes ddigidol a gwneud ein gwasanaethau'n llawer mwy hygyrch i'n defnyddwyr'.

## Gwiriadau sylfaenol

Ar hyn o bryd, dim ond ychydig o wiriadau sylfaenol rydym yn eu derbyn gan y don gyntaf o Sefydliadau Cyfrifol. O hyn hyd ddiwedd y flwyddyn bydd y GDG yn cymryd mwy o wiriadau sylfaenol gan Disclosure Scotland hyd nes y bydd y GDG yn ymdrin â holl wiriadau sylfaenol Lloegr a Chymru a Disclosure Scotland yn rheoli holl wiriadau'r Alban. Yn Ionawr 2018 bwriadwn lansio gwasanaeth ar-lein newydd a fydd yn galluogi cwsmeriaid unigol i wneud ceisiadau am wiriadau datgelu sylfaenol yn uniongyrchol i'r GDG.

## Sefydliadau Cyfrifol

Fe wnaethom siarad â'r ddau Sefydliad Cyfrifol cyntaf i anfon ceisiadau electronig i'r GDG – Access Personal Checking Services LTD (APCS) ac uCheck – sydd wedi bod mewn cysylltiad â'r GDG dros yr ychydig fisoedd diwethaf i greu a phrofi'r gwasanaethau gwe a fydd yn eu galluogi i gyflwyno gwiriadau electronig yn uniongyrchol i'r GDG. Dywedodd Mark Gardner, Rheolwr Gyfarwyddwr yn APCS, wrthym, 'Mae APCS wedi bod yn cydweithio'n agos â'r GDG a'u tîm datblygu i sicrhau bod gwasanaeth gwe sylfaenol y GDG yn bodloni pob gofyniad. Dros sawl mis rydym wedi cysylltu â'r GDG, a roddodd adborth prydlon i unrhyw gwestiynau a godwyd, yn enwedig o ran y gwasanaeth gwe newydd a chymhlethdodau ei strwythur data. Fe wnaethom gynorthwyo'r GDG yn eu profion parodrwydd, a'n staff ymroddedig yn gweithio oriau y tu hwnt i'r arferol ar y Dydd Sul i sicrhau llwyddiant y profi. Mae'r cymorth yr ydym wedi ei roi i'r GDG wedi parhau ac fe roesom help iddynt gyda'u hamgylchedd profi. O ganlyniad i waith caled a phenderfyniad tîm APCS yr ydym yn falch mai ni yw'r Sefydliad Cyfrifol cyntaf gyda'r GDG ac rydym eisoes wedi cyflwyno ein cais cyntaf drwy'r gwasanaeth byw gan dderbyn y canlyniadau yn ôl yn brydlon o fewn ychydig dros awr. Ystyriwn hyn yn welliant mawr yn yr amseroedd cyflawni a gwelwn ein cwsmeriaid yn cael budd mawr o hyn'.

Ychwanegodd George Griffiths, Cyfarwyddwr Gweithrediadau yn uCheck, 'Rydym wedi mwynhau gweithio gyda'r GDG ar y prosiect hir a heriol o lansio gwasanaeth datgelu sylfaenol i Loegr a Chymru. Mae ei lwyddiant yn brawf o waith caled ein timau datblygu a gweithredu a'u rhyngweithio gyda'r GDG a'u cyflenwyr i wneud y trawsnewid mor esmwyth â phosibl. Mae'n falch iawn gennym fod ymhlith y

cwmnïau sgrinio cyntaf yn y wlad i gynnig y gwasanaeth i'n cwsmeriaid teyrngar ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'r GDG ar eu prosiectau sydd i ddod.'

Talodd Ian Johnston, Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r GDG (Datgelu), deyrnged i'r Sefydliadau Cyfrifol newydd, gan ddweud, 'Mae'n hynod falch gennym fod APCS ac uCheck gyda ni a hoffem ddiolch iddynt am eu cefnogaeth. Maent wedi gweithio ar y cyd â'n timau technegol a rheoli cyfrifon ac wedi mynd yr ail filltir i wneud i bethau ddigwydd.'

Y cam nesaf fydd cyflwyno'r system newydd yn achos datgeliadau safonol a manylach yn 2018.

## Ffeithiau allweddol i Sefydliadau Cyfrifol sylfaenol

- Mae'r GDG yn awr yn prosesu gwiriadau sylfaenol ar gyfer Lloegr a Chymru
- Nid oes angen unrhyw ymyrraeth ddynol i gyflawni tua 50% o'r gwiriadau ac rydym yn rhyddhau canlyniadau o fewn 2 funud
- Rhaid i Sefydliadau Cyfrifol newid drosodd i'r GDG erbyn 31 Rhagfyr 2017
- Bydd angen i Sefydliadau Cyfrifol sy'n datblygu gwasanaethau gwe er mwyn cyflwyno gwiriadau i'r GDG adael digon o amser ar gyfer eu profi gyda'r GDG
- Os am help cysylltwch â'ch rheolwr Cefnogi/Cyfrifon yn y GDG
- Os nad oes gennych reolwr Cefnogi/Cyfrifon yn y GDG cysylltwch â customerservices@dbs.gsi.gov.uk am fwy o wybodaeth

**Rhaid i geisiadau yn achos unigolion sy'n gweithio yn Lloegr a Chymru (neu sy'n byw o fewn Lloegr a Chymru, os nad yw'r gwiriad i bwrpasau cyflogaeth) gael eu cyflwyno i'r GDG wedi 31 Rhagfyr 2017.**

## Canlyniadau bodlonrwydd cwsmeriaid

**Ym mis Mai fe wnaethom rannu gyda chi ganlyniadau cychwynnol o'n trydydd arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid a hoffem ddweud mwy wrthych am yr adborth a gawsom.**

### Effaith y GDG ar ddiogelwch y cyhoedd

Mae'r GDG wedi ymrwymo i ddiogelu, ac y mae'n gysur mawr gwybod bod **90%** o'n cwsmeriaid yn cytuno ein bod yn gwneud gwahaniaeth i ddiogelwch y cyhoedd. Mae'r ganran o gwsmeriaid sy'n cytuno'n gryf â'r gosodiad hwn wedi cynyddu bob blwyddyn o **56%** yn 2015 i **63%** eleni.

### Bodlonrwydd cwsmeriaid

Dywedodd **88%** o'n cwsmeriaid eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a gawsant gan y GDG, sy'n gydradd â chanlyniadau'r llynedd. Mae'n galondid mawr i weld ein bod yn dal i ddarparu gwasanaeth o lefel uchel yn gyson ac rydym wedi ymrwymo i wella ein gwasanaeth yn barhaus.

Er bod y ffigur yn dal yn uchel, mae cyfradd bodlonrwydd y bobl sy'n cael eu hatgyfeirio i'n gweithrediadau gwahardd wedi gostwng ac rydym yn gweithio'n galed i ddeall y rhesymau penodol y tu ôl i hyn.  Mae datblygu perthynas gadarnhaol â'r rhai sy'n cael eu hatgyfeirio yn bwysig iawn i ni.

**Cyflenwi ein gwasanaeth**

I bob un o'n grwpiau cwsmer, pery cyflymder gwasanaeth yn brif flaenoriaeth.  Mae **72%**  o'n cwsmeriaid yn fodlon ar yr amser a gymer i brosesu ceisiadau. Rydym yn deall pwysigrwydd hyn a phob tro'n ceisio cyfuno cywirdeb a gwasanaeth cyflym. Bwriad cyflwyno ein llwyfan TG newydd, wedi ei foderneiddio, yw dod â gwelliannau pellach o ran amseru ein gwasanaethau.

Mae **68%** o'n cwsmeriaid yn fodlon ar gost tystysgrif datgeliad; mae hyn yn gynnydd o 15 pwynt canrannol ers 2015.  Mae rhoi gwerth am arian yn bwysig iawn i ni ac nid yw cost datgeliad wedi codi ers Ebrill 2011.  Mae adborth cwsmeriaid ynghylch ein staff yn dal i fod yn gadarnhaol iawn a 9 o bob 10 cwsmer yn cytuno eu bod yn foesgar a phroffesiynol.

Mae ymrwymiad ein tîm i roi gwasanaeth rhagorol yn destun cryn falchder i ni.  Mae'r canlyniadau yma'n rhoi boddhad mawr i ni, felly hefyd yr ardystiad gan ein cwsmeriaid ein bod yn gwneud gwaith da, a chyfraniad gwerthfawr ym maes diogelu.

**Yr hyn fydd yn digwydd yn awr**

Y llynedd dywedodd rhai o'n cwsmeriaid wrthym y gallai ein cyfathrebu ysgrifenedig fod yn well ac mae rhai grwpiau cwsmer wedi adrodd ar welliant eleni.

Rydym wrthi'n gweithio ar welliannau pellach i'n cyfathrebu ysgrifenedig.  Byddwn yn dal i ganolbwyntio ar wella ein gwasanaeth i chi, ein cwsmeriaid a'n partneriaid: gan wneud yn sicr fod y GDG yn rhoi gwasanaeth o ansawdd da.

## Diweddariad ar gydymffurfiad Cyrff Cofrestredig

**Yn rhifyn Ionawr 2017 o Newyddion y GDG rhoesom wybod i chi am raglen Hunanasesu cydymffurfiad Corff Cofrestredig.**

Pery nifer bychan o gyrff cofrestredig nad ydynt wedi ymateb, a byddwn yn cysylltu â hwy yn y dyfodol agos; hoffem ddiolch i'r holl gyrff cofrestredig eraill am eich cydweithrediad a'ch cyfraniad yn yr ymarferiad pwysig hwn.  Dylai'ch Prif Lofnodwr fod wedi derbyn ymateb gennym, ynghyd â chanllaw ar gydymffurfiad y corff cofrestredig yn cynnig arweiniad pellach ac awgrymiadau am reolaethau parthed pob rhan o'r cod ymarfer.

Gwelwyd o'r holiaduron a gwblhawyd y meysydd canlynol lle mae angen i gyrff cofrestredig wella eu rheolaethau/gweithdrefnau er mwyn gweithredu'n unol â'r cod ymarfer:

**Cofrestru**
Dylech adolygu manylion cofrestru eich sefydliad, ynghyd â'ch Cyd-lofnodwyr, yn rheolaidd, a hysbysu'r GDG yn syth am unrhyw newidiadau.
https://www.gov.uk/guidance/dbs-check-requests-guidance-for-employers

**Cymhwysedd**
Dylech sicrhau bod pob Cyd-lofnodwr yn ymwybodol o offeryn cymhwysedd y GDG i sefydlu pa rolau neu weithgareddau a all fod yn gymwys i dderbyn gwiriad Safonol neu Fanylach y GDG.
https://www.gov.uk/government/collections/dbs-eligibility-guidance

Rydym yn awr wedi dechrau cam nesaf y rhaglen gydymffurfio, ac yn y misoedd i ddod fe allech dderbyn holiadur mwy manwl. Bydd hwn yn gofyn i chi ymhelaethu ar eich ymatebion a rhoi tystiolaeth o ba mor effeithiol yw eich prosesau o ran gweithredu'n unol â'r cod ymarfer.

## Diogelu drwy wybodaeth datgeliad

**Mae'r Ddeddf Diogelu Rhyddidau'n ei gwneud yn rheidrwydd sefydlu cysylltiad person â gweithgaredd a reoleiddir cyn y gellir dod i benderfyniad i wahardd. (Mae rhai eithriadau'n bodoli yn achos yr ymddygiad troseddol mwyaf difrifol.)**

Gwneir y cysylltiad hwn drwy sefydlu bod rhywun yn awr, neu fod rhywun wedi bod yn flaenorol yn gweithio gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed. Gellir hefyd wneud y cysylltiad drwy'r rôl yr ymgeisir amdani pan wneir cais am wiriad cofnodion troseddol perthnasol. Mae'r cais hwn yn arwydd eu bod 'wrthi'n ceisio' gwaith mewn gweithgaredd a reoleiddir.

Hysbysir ein tîm Gweithrediadau Gwahardd os yw tystysgrif am rôl mewn gweithgaredd a reoleiddir yn datgelu unrhyw euogfarnau neu wybodaeth a gymeradwyir. Os nad yw'r wybodaeth a ddatgelir yn teilyngu ystyried gwahardd rhywun rhag gweithio gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed, ni chymerir camau pellach. Fodd bynnag, os codir pryderon, ac os ystyrir y dylid cymryd camau pellach, hysbysir yr ymgeisydd fod y GDG yn ystyried a ddylent gael eu gwahardd rhag gweithio gyda phlant ac oedolion hyglwyf.

**Yr hyn sy'n digwydd nesaf**
Gall y tîm o hynny ymlaen gasglu gwybodaeth gefnogol arall gan bartïon perthnasol megis cyflogwyr blaenorol. Byddant yn ystyried unrhyw beth a gesglir, ynghyd â'r wybodaeth a ddatgelir ar y dystysgrif, yn rhan o'n proses o benderfynu ar wahardd. Er enghraifft, byddai gan dystysgrif perthynol i rôl yn gweithio yng ngweithlu plant wybodaeth wedi ei datgelu am euogfarn a ystyriwyd o ran perthnasedd i waharddiad ar y rhestr blant. Os yw'r rôl yn y ddau weithlu yna ystyrir y ddwy restr.

Os bydd yr achos yn symud yn ei flaen i'r cam o ystyried gwahardd, gwahoddir yr unigolyn i gyflwyno dadleuon. Os mai ein penderfyniad terfynol fydd y dylid cynnwys y person mewn un neu'r ddwy o'r rhestrau gwahardd, fe'u hysbysir o hynny. Bydd yn drosedd wedyn iddynt weithio mewn gweithgaredd a reoleiddir.

Mae angen gwybodaeth o ansawdd da ar gyflogwyr i'w galluogi i ddod i benderfyniadau ar addasrwydd sy'n fwy diogel. Bydd penderfyniadau'r GDG i wahardd yn sicrhau bod y bobl hynny sy'n risg sylweddol o ran diogelu, ac sy'n dal i geisio gwaith, yn cael eu rhwystro rhag gweithio mewn unrhyw swydd mewn gweithgaredd a reoleiddir.